Y Glöyn milain

Caredigrwydd / Cyd-dynnu

Cododd yr haul yn fore. Pump o'r gloch oedd hi. Daeth un glöyn byw mawr glas i'r ardd i chwilio am neithdar. Ymhen dim daeth un arall i'r ardd i chwilio am frecwast. Roedd blodyn mawr coch wedi agor ei betalau. Roedd digonedd o neithdar melys ynghanol y blodyn. Yn sydyn, daeth glöyn byw arall i'r ardd. Glöyn milain oedd hwn. Edrychodd yn gas ar y ddau löyn arall.

"Bore da" meddai'r ddau löyn glas efo'i gilydd.

"Ewch i ffwrdd," meddai'r glöyn milain wrthyn nhw. "Y fi biau'r ardd yma. Y fi biau'r blodau i gyd. "Ffwrdd â chi nerth eich adenydd."

"Pam?" meddai un o'r gloynnod glas. "Mae ganddo ninnau hawl i ddod i chwilio am fwyd i'r ardd."

"Nag oes" chwyrnodd y glöyn milain. "Yda chi eisiau ffeit?"

"Beth am i ni rannu'r neithdar?" gofynnodd y glöyn glas.

"Na, fi biau'r neithdar i gyd. Dim ond y fi a neb arall. Ffwrdd â chi o'r ardd yma ar unwaith."

Penderfynodd y ddau löyn glas beidio cymryd dim sylw o'r glöyn milain. Dyma nhw'n dechrau sugno'r neithdar efo'u tafodau hirion.

"Dydych chi ddim i ddod yn agos at y blodyn coch yma," meddai'r glöyn milain. "Yn hwn mae'r neithdar melysaf yn yr ardd i gyd."

Daeth y ddau löyn glas yn agos at y blodyn coch. Cododd y glöyn milain ei ddau deimlydd a phwnio'r gloynnod eraill yn eu hadenydd. "I ffwrdd â chi. Fi biau'r blodyn coch."

Unwaith eto dyma'r ddau löyn glas yn hedfan uwchben y blodyn coch. Gwylltiodd y glöyn milain ac ysgwyd ei adenydd yn gyflym. "Rwy'n barod am ffeit" meddai'n haerllug wrth y ddau löyn glas.

"Wyt ti'n barod am ffeit, felly?" meddai un o'r gloynnod glas gan hedfan yn nes ac yn nes at y glöyn milain.

Edrychodd ar y glöyn milain ym myw ei lygaid. Camodd y glöyn milain yn ôl o'r blodyn coch ar y dail. Doedd y glöyn milain ddim yn sicr ohono'i hun erbyn hyn.
"O dydych chi ddim digon mawr i ymladd efo fi," meddai'r glöyn milain gan ysgwyd ei adenydd a'i deimlyddion yn wyllt.
"Pam na wnei di ddewis rhywun mwy ynteu?" gofynnodd un o'r gloynnod glas.
"Mi wnâi hynny" meddai'r glöyn milain gan sgrechian. "Mi ddangosai i chi pa mor gryf ydw i. Chwyddodd ei hun yn fawr. Cododd ar ei adenydd ac aeth dros glawdd yr ardd i'r caeau gerllaw.
Cafodd y ddau löyn glas amser bendigedig yn yr ardd. Buo'n nhw'n sugno'r neithdar o'r blodyn coch. Y neithdar melysaf oedden nhw wedi'i flasu erioed.
"Gobeithio na welan ni byth mo'r glöyn milain eto yn yr ardd," meddai'r ddau löyn glas.

O Dduw, doeddwn i ddim yn hoffi'r glöyn milain. Os y byddai i'n filan a chas wnei di fy helpu i fod yn blentyn caredig. Amen.

- Oeddech chi'n hoffi'r glöyn milain? Pam?
- Pa eiriau fyddech chi'n eu defnyddio i ddisgrifio y ffordd roedd yn ymddwyn?